

1. Beth yw'r isafswm cyfradd cyflog dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol?

Cyflwynodd fframwaith 2019 isafswm cyfradd cyflog fesul diwrnod ar gyfer athrawon cymwysedig – sef y rhai a chanddynt Statws Athro Cymwysedig ac sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi; mae hyn yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yng Nghymru, a bydd yr isafswm cyfradd yn cynyddu yn dilyn unrhyw ddyfarniad cyflog. Pwrpas yr isafswm cyfradd cyflog hwn yw amddiffyn athrawon cymwysedig a sicrhau bod yr isafswm cyfradd yn cyfateb i'r swm a delir yn uniongyrchol i athrawon a gyflogir. Fodd bynnag, nid oes dim i rwystro ysgolion/asiantaethau rhag talu cyfraddau fesul diwrnod uwch pan fo hynny'n briodol. Mae'r gyfradd yn seiliedig ar brif ystod cyflog gyfredol athrawon. O 2019, M1 oedd y gyfradd, ond o fis Medi 2021 newidiodd y gyfradd i M2. Cyfrifir y gyfradd ddyddiol drwy rannu'r cyflog blyneddol â nifer y diwrnodau addysgu fesul blwyddyn academaidd (195). Felly, mae'r gyfradd yn cynnwys tâl gwyliau.

1. A yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ysgolion dalu'r isafswm cyfradd cyflog i athrawon cyflenwi?

Nac ydyw. Ar hyn o bryd ni cheir unrhyw ddeddfwriaeth a all orfodi hyn. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi gweithio gydag adrannau addysg awdurdodau lleol i sicrhau bod yr isafswm cyfradd cyflog newydd yn cael ei hyrwyddo ymhlith ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi dweud yn glir wrth asiantaethau penodedig na ddylent, dan delerau'r fframwaith, hyrwyddo ymhlith ysgolion y gallant gynnig cyfradd i weithwyr sydd islaw'r isafswm cyfradd cyflog ac y dylai unrhyw dystiolaeth fod asiantaeth wedi gwneud hynny gael ei rhoi i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i'w hasesu. Fodd bynnag, yr ysgol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch lefel y cyflog.

Pe bai ysgol yn mynnu talu cyfradd sydd islaw'r isafswm cyfradd cyflog, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi gofyn i asiantaethau roi gwybod i ni, er mwyn i ni allu crybwyll hyn wrth yr awdurdod lleol perthnasol.

2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng goruchwyliwr llanw ac athro cymwysedig?

Mae rôl goruchwyliwr llanw a rôl athrawon cyflenwi a chanddynt statws athro cymwysedig yn wahanol i'w gilydd.

Unigolyn a chanddo statws athro cymwysedig ac sydd wedi cofrestru yn y categori 'athro ysgol' gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yw athro ysgol cymwysedig. Mae'n ofynnol i oruchwyliwr llanw gofrestru yn y categori 'gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol'. Sylwer: mae'n ofynnol i'r ymarferwyr hynny a all fynd i'r afael â'r ddwy rôl gofrestru yn y ddau gategori (un ffi gofrestru yn unig y bydd yn rhaid ei thalu).

**Y GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL – FFRAMWAITH ATHRAWON
CYFLENWI
CWESTIYNAU CYFFREDIN**

Bydd angen goruchwyliwr llanw pan na fydd unrhyw addysgu'n cael ei wneud. Dim ond ar gyfer absenoldebau tymor byr y dylid gwneud hyn. Gall unigolion sy'n meddu ar y radd a'r sgiliau priodol fynd i'r afael â gwaith goruchwyllo llanw; ni fydd yn rhaid iddynt fod â Statws Athro Cymwysedig. Y rôl yw goruchwyllo ystafell ddosbarth, gan sicrhau bod y dysgwyr yn cwblhau'r gwaith sydd wedi'i baratoi ar eu cyfer. Ni ddylid disgwyl i oruchwylwyr llanw fynd i'r afael ag unrhyw waith penodedig; mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y'u diwygiwyd, yn nodi pwy a all fynd i'r afael â 'gwaith penodedig'.

Os defnyddir athrawon cyflenwi fel goruchwylwyr llanw, ni ddylid disgwyl iddynt addysgu.

4. Os oes gennyf statws athro cymwysedig, ond os gofynnir i mi fynd i'r afael â rôl goruchwyliwr llanw, a fyddaf yn dal i gael yr isafswm cyfradd cyflog M2?

Mae'r isafswm cyfradd cyflog yn berthnasol i rôl athro cymwysedig, a rhaid cynnig yr isafswm hwn pan fo athrawon cyflenwi'n mynd i'r afael ag unrhyw waith penodedig. Os byddant yn fodlon, gall athrawon cyflenwi cymwysedig fynd i'r afael â rôl goruchwylwyr llanw, ond nid oes unrhyw ddisgwyliad y byddant yn cael yr isafswm cyfradd cyflog dan y fframwaith. Dylai eu horiau gwaith, eu dyletswyddau a'u cyflog gael eu pennu ar sail yr aseiniad a dylai'r gweithiwr gytuno arnynt cyn iddynt gael eu pennu gan yr ysgol.

Y cafeat mewn perthynas â hyn yw bod yr ysgol wedi disgrifio'r rôl yn fanwl gywir, a bod yr athrawon cyflenwi'n glir ynglŷn â'r rôl y maent yn cytuno i'w gwneud. Os bydd gweithwyr yn teimlo eu bod wedi'u rhoi ar gam mewn rôl goruchwyliwr llanw er mwyn osgoi talu'r isafswm cyfradd cyflog iddynt, dylent roi gwybod am hyn i'w hasiantaeth neu i Adran Addysg yr Awdurdod Lleol, a all drafod y mater gyda'r ysgol.

Dylai'r isafswm cyfradd cyflog gael ei ddefnyddio pan fo athro cyflenwi cymwysedig yn mynd i'r afael â rôl a chyfrifoldebau athro ystafell ddosbarth, ni waeth be fo'r pwnc.

5. A yw'r gyfradd cyflog yn berthnasol o'r diwrnod cyntaf, ac a fydd yn newid yn ystod fy lleoliad?

Os cewch eich rhoi mewn rôl athro ystafell ddosbarth, bydd yr isafswm cyfradd cyflog M2 yn cael ei dalu o'r diwrnod cyntaf, pan fo'r ysgol yn gweithio dan delerau'r fframwaith (gweler C.1 a C.2 uchod).

Ar ôl cyfnod cymhwyso o 12 wythnos, mae'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth yn rhoi hawliau i bob gweithiwr asiantaeth gael yr un amodau gweithio a'r un amodau cyflogaeth â gweithwyr cyfatebol a gyflogir yn uniongyrchol gan y llogwr (e.e. ysgol) i wneud yr un swydd. Ymhellach, mae'r Rheoliadau yn nodi'n glir fod yr hawl hon yn ymestyn i gyflog, oriau gwaith a gwyliau.

Y GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL – FFRAMWAITH ATHRAWON CYFLENWI CWESTIYNAU CYFFREDIN

Ar ôl cwblhau cyfnod cymhwyso o 12 wythnos, mae gan athrawon cyflenwi yr hawl i gael yr un cyflog â gweithwyr cyfatebol yn yr ysgol, ac yn ôl y rheoliadau hyn byddai ganddynt yr hawl i'r un oriau gwaith a'r un gwyliau blynyddol ag athrawon eraill sy'n weithwyr cyfatebol. Mae isafswm cyfradd cyflog y fframwaith yn gymwys hyd at drydedd wythnos ar ddeg y gyflogaeth, ac ar ôl hynny mae'r cyflogwr (asiantaeth) a'r huriwr (ysgol) yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliadau. Mae mesurau yn y rheoliadau i atal cyflogwyr/hurwyr rhag ceisio osgoi'r rheoliadau.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am faterion cyflogaeth. Mae canllawiau ar y rheoliadau ac ar sut y dylid eu cymhwyso ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: [Agency Workers Regulations 2010: guidance for recruiters - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/agency-workers-regulations-2010-guidance-for-recruiters)

6. A yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ysgolion ddefnyddio'r fframwaith?

Yng Nghymru, caiff athrawon cyflenwi eu cyflogi mewn nifer o ffyrdd. Dan y fframwaith rheoli ysgolion yn lleol, fel y nodir yn Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, yr ysgolion sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch sut y maent yn trefnu, yn recriwtio, yn defnyddio ac yn rheoli gweithlu ysgol effeithiol. Golyga hyn fod y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd o safbwynt defnyddio athrawon cyflenwi yn bur wahanol ar draws Cymru, gan ddibynnu ar anghenion lleol, cyfyngiadau daearyddol, a'r gofynion o ran iaith a phynciau. Mae'r penderfyniadau hyn yn adlewyrchu amgylchiadau, adnoddau a blaenoriaethau'r ysgolion, fel y nodir yn eu Cynllun Datblygu Ysgol.

Er mwyn diwallu anghenion yr ysgol, mae ysgolion yn rhydd i 'gyflogi' athrawon cyflenwi cymwysedig o ba le bynnag y teimlant fod hynny'n briodol. Gall hyn gynnwys modelau cyflogi uniongyrchol, defnyddio athrawon ychwanegol neu athrawon 'fel bo'r angen', cydweithio ag ysgolion eraill i rannu adnoddau, neu ddefnyddio asiantaeth gyflenwi fasnachol.

Mae cytundeb fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'i lunio er mwyn helpu ysgolion i recriwtio staff dros dro trwy fframwaith cenedlaethol ar gyfer Cymru, ond nid yw'n orfodaeth ar ysgolion i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, pe bai ysgolion yn dymuno cyflogi cymorth cyflenwi trwy ddefnyddio asiantaeth, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog ysgolion yng Nghymru i ddefnyddio asiantaethau sydd wedi'u penodi ar y fframwaith i ddiwallu eu hanghenion. Mae Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Fframwaith drwy drefniadau Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion.

7. Beth yw Rhanddirymiad Swedaidd, ac a gaiff ei ganiatáu o hyd?

Model cyflogi lle roedd asiantaeth yn llogi gweithiwr yn uniongyrchol yn hytrach na bod yn y canol rhwng gweithiwr ac ysgol oedd rhanddirymiad Swedaidd. Roedd y model hwn yn osgoi rhai o reolau'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth.

Y GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL – FFRAMWAITH ATHRAWON CYFLENWI CWESTIYNAU CYFFREDIN

Pan gafodd y Fframwaith ei gyflwyno yn 2019, nid oedd telerau'r cytundeb yn caniatáu cyflogaeth o dan fodel Rhanddirymiad Swedaidd. Cafodd y model ei ddirymu'n llwyr dan Reoliadau Gweithwyr Asiantaeth (Diwygio) 2019, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020.

8. Sut y mae asiantaethau'n codi tâl ar ysgolion am eu gwasanaethau dan y fframwaith?

Yn achos asiantaethau a aeth ati i gyflwyno cais i fod yn rhan o'r fframwaith, gofynnwyd iddynt gyflwyno ffioedd sefydlog ar gyfer y gwahanol rolau. Gan ddibynnu ar y rôl, caiff rhai ffioedd eu codi fesul diwrnod, ac eraill fesul awr, ond mae'r rhain yn sefydlog – ni fyddant yn newid pe bai'r gyfradd cyflog yn codi neu'n gostwng, ac nid ydynt yn codi neu'n gostwng tra bo'r contract ar waith.

Felly, os yw ffi'r asiantaeth yn £25 y diwrnod am athro cymwysedig, er enghraifft, dyma'r swm y bydd yr asiantaeth yn ei gael gan yr ysgol am ei gwasanaeth, pa un a fydd yr athro cyflenwi'n cael tâl ar gyfradd M2 neu M6. Ni fydd yn newid, ac ni chaiff ei chyfrifo ar sail canran, fel y gwnaed o bosibl gan asiantaethau yn y gorffennol.

Mae'r holl asiantaethau sy'n rhan o'r fframwaith wedi cyflwyno'u ffioedd ar gyfer yr holl rolau a gynigir. Mae ysgolion yn gwybod beth yw ffioedd yr asiantaethau o fewn eu hardal, ar gyfer pob rôl dros dro, ac mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch y modd y caiff eu cyllideb staffio ei defnyddio.

9. Pa ddarpariaethau a geir dan y fframwaith mewn perthynas â mynediad at hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon cyflenwi?

Fel y nodir gan gwsmeriaid awdurdodau lleol, bydd hyfforddiant gorfodol gan asiantaethau'n cynnwys y canlynol fan leiaf:

- Diogelu lefel un
- Codi a chario
- Cymorth cyntaf
- Rheoli Ymddygiad

Ymhellach, mae'n ofynnol i asiantaethau ystyried sgiliau a phrofiad eu gweithwyr, a chefnogi a datblygu hyfforddiant sy'n angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Er enghraifft, diweddariadau a hyfforddiant sy'n berthnasol i feithrin ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm yng Nghymru, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, hyfforddiant iaith Gymraeg a chymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

10. Pa asiantaethau sydd ar fframwaith asiantaethau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a phryd mae'r contract presennol yn dod i ben?

Mae rhestr o asiantaethau'r fframwaith wedi'i chynnwys drwy'r ddolen amgaeedig: [220711-2022-nps-awarded-suppliers-by-zone.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/220711-2022-nps-awarded-suppliers-by-zone.pdf)

**Y GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL – FFRAMWAITH ATHRAWON
CYFLENWI
CWESTIYNAU CYFFREDIN**

Nid yw pob asiantaeth a gymeradwywyd ar y fframwaith yn 2019 wedi aros o dan y cytundeb, ac efallai bod rhai wedi gadael yn ystod blwyddyn academaidd. Caiff y rhestr ei diwygio pan fydd newidiadau.

Bydd y contract presennol yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2023, a bydd cytundeb newydd yn dod i rym o fis Medi 2023.

11.Â phwy y dylwn gysylltu os bydd gennyf broblem neu ymholiad?

Problem / Ymholiad	Cyswllt
<ul style="list-style-type: none"> • Pryderon yn ymwneud ag arferion amhriodol mewn asiantaethau • Terfynau oriau gwaith • Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol 	<p>Yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogi</p> <p>Complain about pay and work rights - GOV.UK (www.gov.uk)</p> <p>I gael gwybodaeth ychwanegol am hawliau gweithwyr, ewch i: JobsAware – Diogelu hawliau gweithwyr</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Ymholiadau neu bryderon ynghylch y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth • Cwynion a hawliadau yn y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 	<p>Eich asiantaeth a/neu'r ysgol sy'n eich cyflogi</p> <p>ACAS</p> <p>Gwneud hawliad i dribiwnlys cyflogaeth - Acas</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Asiantaethau sydd ar y fframwaith yn torri amodau a thelerau'r cytundeb fframwaith 	<p>Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol</p> <p>commercialprocurement.supplyteachers@gov.wales</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Y rôl sydd wedi'i rhoi i chi • Eich cyfradd cyflog • Taliadau a lwfansau ychwanegol ar gyfer rolau penodol 	<p>Eich asiantaeth a/neu'r ysgol sy'n eich cyflogi</p>